Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Disgrifiad Swydd

Teitl y Swydd:	Ecolegydd
Oriau Wythnosol:	Rhan amser 15 – 22.5 awr yr wythnos (trwy drafodaeth)
Lleoliad:	Swyddfa Ystâd Elan, Pentref Elan
Yn atebol i:	Rheolwr yr Ystâd
Cyflog:	£33,500 – £37,500 (*pro rata*)
Dyddiad Cau:	18fed Tachwedd 2026
Dyddiad Cyfweliad:	25ain neu 26ain Tachwedd 2026

Cwm Elan:

Mae Cwm Elan wedi'i lleoli ym Mynyddoedd y Cambria yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r tirwedd yn unigryw, yn gyfuniad o dir bryniog anghysbell, ffermydd arunig, dyffrynnoedd coediog serth, a'r cronfeydd dŵr, sef camp hynod o beirianneg Fictoraidd a ddaeth â dŵr glân i Birmingham.

Y Swydd

Os ydych yn frwdfrydig dros wneud gwahaniaeth parhaol ar dirwedd er mwyn cynnal natur a chyrchnod hinsawdd, yna rydym yn chwilio am ecolegydd sydd â'r brwdfrydedd, ymrwymiad a deallusrwydd o'r dirwedd bwysig hon.

Fe fydd y swydd yn golygu rhoi cyngor ac arweiniad ar reoli oddeutu 4,000 erw o dir ffermio mewn llaw. Mae'r daliadau hyn yn cynnwys amryw o gynefinoedd, gan gynnwys dolydd gwellt a thir pori sy'n llawn o rywogaethau, glaswelltiroedd asid, ffridd, cynefinoedd ar y bryniau agored sy'n llawn o wellt y gweunydd, rhostiroedd sych, ac ardaloedd llai o goetiroedd. Mae'r ystâd hefyd yn cynnwys nifer o safleoedd dynodedig, gan gynnwys Safleodd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig, ac Ardal Cadwraeth Arbennig, i gyd angen rheolaeth ofalus a chydymffurfiad gyda'r ymrwymiadau statudol perthnasol.

Yn ychwanegol, fe fydd y swydd yn cynnwys cefnogi tenantiaid, yn enwedig y rhai sy'n newydd i'w daliadau, i ddeall yr anghenion rheoli ar eu ffermydd. I adnabod cyfleoedd er mwyn gwella bioamrywiaeth, ansawdd y cynefin a gwytnwch ecolegol.

Fe fydd y swydd hefyd yn cyfrannu at gyflawni prosiectau adfer y mawndiroedd sydd ar y gweill ar hyn y bryd ar yr ystâd. Fe fydd hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda thîm ehangach y mawndiroedd, gan ddarparu cyngor ac arweiniad ecolegol, a chefnogi cynllunio a chyflwyno arolygon amgylcheddol a gwaith cadwraeth perthnasol.

Wedi eich lleoli yng Nghwm Elan, fe fyddwch yn rhan o dîm dynamig, gan sicrhau gwaddol parhaol i genedlaethau i ddod. Rydym yn chwilio am agwedd ddynamig, 'gallu gwneud' ac angerdd dros weithio'n agos gydag amrwyiaeth eang o fuddiolwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn ein tirwedd arbennig.

Yn ei dro, rydym yn cynnig awyrgylch cyfeillgar, hyblyg, cyfleoedd gwych ar gyfer datblygiadau proffesiynol a'r cyfle i wneud gwahaniaeth bositif yn y dirwedd unigryw hon.

Pwrpas y Swydd

Fel aelod blaenllaw o dîm swyddfa'r Ymddiriedolaeth, fe fyddwch yn gyfrifol dros hyrwyddiadau a datblygiadau'r ffermydd mewn llaw yn nhermau adfer cynefin, ochr yn ochr ag ymarferion ffermio, gan weithio'n agos â Rheolwr yr Ystâd.

Yn ychwanegol, fe fydd cyfleoedd i ddatblygu prosiectau a ariennir a all weithio ar draws yr ystâd ac ymgysylltu'n weithredol â thenantiaid. Bydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd â'r Rheolwr Prosiectau a Phartneriaeth yn unol ag amcanion ehangach yr Ymddiriedolaeth.

Prif ddyletswyddau ac atebolrwydd

I ddarparu cefnogaeth ecolegol a chyngor i'r Ymddiriedolaeth yng nghyd-destun eu ffermydd mewn llaw ynghyd â chyfleoedd cadwraeth natur, gan gynnwys:

- Arolygon cynefinoedd a rhywogaethau.
- Paratoi a Goruchwylio rhanddirymu SoDdGA.
- Adolygu ac asesu gweithreoedd cyfredol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Datblygu dyheadau ar gyfer dewisiadau'r dyfodol ar ffermydd mewn llaw o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Cadw golwg a gwerthuso gweithredoedd a chanlyniadau.
- Paratoi adroddiadau, datganiadau a thystiolaeth ysgrifenedig pan fo angen.
- Gweithio gyda Rheolwr yr Ystâd i ddatblygu cynlluniau blynyddol ar gyfer pori, megis gyda gwartheg, er mwyn sicrhau'r buddion mwyaf.
- Cysylltu â'r Bugeiliaid, Contractwyr a Gweithwyr yr Ystâd pan fo angen er mwyn cyflawni'r canlyniadau mwyaf.
- Trefnu gweithredoedd blynyddol mewn perthynas â rheoli'r gylfinirod a gwarchod nythoedd.

- I ddarparu cyngor technegol yn fewnol ac yn allanol mewn perthynas â gweithredoedd a gymerwyd, cwblhau ymchwil a'r cynnydd a wnaed.
- Rhoi cyngor ar ddeddfwriaeth berthnasol lle bo angen, megis Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, Rheoliad Cynefin.
- Mynychu cyfarfodydd gan gynnwys Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, Rhanddeiliaid a phartneriaid pan fo'r angen.

Prosiectau'r Mawndiroedd

Gweithio gyda thîm y mawndir er mwyn datblygu, cymhwyso a gweithredu'r prosiectau adfer mawndiroedd ar draws yr ystâd. Gan gynnwys:

- Arolygon Cynefin a Rhywogaethau.
- Cynorthwyo gyda Rhanddirymu SoDdGA.
- Darparu arbenigedd ecolegol ehangach

Prosiectau a Phartneriaethau

Gweithio gyda thîm rheolaeth uwch i ddatblygu, cymhwyso a gweithredu prosiectau a ariennir a all wella'r amgylchedd ehangach ar yr ystâd, gan alluogi gweithredoedd ehangach ar draws yr ystâd a'r tirwedd.
Trefnu a mynychu'r Is-bwyllgor Treftadaeth Genedlaethol. Sicrhau bod gweithredoedd o'r pwyllgor yn cael dilyniant.
Mynychu cyfarfodydd partneriaid neu randdeiliaid perthnasol fel bo'r angen. Fe all hyn gynnwys: Dŵr Cymru, NRW, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Rhwydwaith Natur Powys, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed, Gylfinir Cymru ayyb.

Nodwch fod peth o'r gwaith allan ar dir anghysbell yr ucheldir ac o bosibl mewn tywydd garw, a fydd ar adegau yn gorfforol heriol. Mae gweithdrefnau iechyd a diogelwch cadarn yn eu lle.

Profiad, gwybodaeth a sgiliau angenrheidiol

- Addysg ecolegol perthnasol a/neu brofiad
- Deallusrwydd o'r dreftadaeth ddiwylliannol, naturiol a thirwedd gyfredol a materion mynediad
- Gwybodaeth dda o ymarferion rheoli'r ucheldiroedd a'r heriau perthasol
- Gwybodaeth gadarn o ecosystemau'r ucheldiroedd, gan gynnwys y mawndiroedd.
- Arbenigedd botanegol profedig o'r ucheldiroedd
- Profiad ymarferol o gadwraeth neu fwyhad y dirwedd
- Y gallu i gwrdd â therfyn amser prosiectau ac adroddiadau, cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau
- Profiad ymarferol o gynllunio a chydgysylltu cynlluniau adfer cynefinoedd

Profiad, gwybodaeth a sgiliau dymunol

- Deallusrwydd o gynlluniau amaeth-amgylcheddol cyfredol
- Profiad o ddysgu/arwain gweithdai a gweithgareddau hyfforddiant
- Profiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid a gweithio gyda phartneriaid
- Sgiliau mapio GIS
- Profiad o weithio dronau
- Sgiliau laith Gymraeg

Cefnogi'r Ymddiriedolaeth

- Codi ymwybyddiaeth o Ymddiriedolaeth Cwm Elan
- Datblygu a chyfrannu at agweddau addysgiadol gwaith yr Ymddiriedolaeth gan gynnwys digwyddiadau a gweithgareddau gwirfoddolwyr
- Unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a amlinellir yn y rhaglen waith flynyddol
- Unrhyw ddyletswyddau rhesymol a allai godi o bryd i'w gilydd
- Pob tasg a chyfrifoldebau i'w cwblhau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Ymddiriedolaeth

Rydym yn agored i ymgweiswyr o ystod eang o gefndiroedd a phrofiadau. Os ydych yn ansicr a ydych yn cwrdd â gofynion y swydd cysylltwch â ni i'w trafod. Rydym hefyd yn agored i ymgeiswyr ar gyfer rhannu swydd, patrwm gwaith hyblyg e.e. gweithio yn ystod tymhorau ysgol neu lai o oriau gwaith na'r rhai a hysbysebir.

Proses Ymgeisio

Cyflwynwch CV cyfredol gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- Hanes eich gyrfa
- Cymwysterau
- Dau Geirda

Ynghyd â datganiad ategol dim mwy na 2 ochr A4 (11pt lleiaf) yn disgrifio sut ydych yn cwrdd â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad a restrir uchod ynghyd â nodweddion personol o'r hyn sy'n berthnasol yn eich barn chi.

Rhaid cyflwyno'r cais erbyn **18fed Tachwedd 2026** i recruitment@elanvalley.org.uk at sylw Charlotte Harley, Rheolwr yr Ystâd.